# Adroddiad Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-02-09)**

**SLC231**

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

### Title : Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn perthynas â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009. Maent yn cydgrynhoi, gyda rhai newidiadau, Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008, fel y'u diwygiwyd ("Rheoliadau 2008").

### Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau canlynol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae testun Saesneg rheoliad 3(9) yn cloi gyda chyfeiriad at 1 Medi 2009, a'r testun Cymraeg yn cyfeirio at 2008. [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)]

Mae testun Saesneg rheoliad 10(2)(b) yn cynnwys y geiriau "or is applying for an additional amount of fee loan under regulation 21(3) or 21(7)," a'r testun Cymraeg yn nodi "neu os yw'n ceisio am swm ychwanegol o fenthyciad at ffioedd o dan reoliad 21(6) neu 21(8)," [or is applying for an additional amount of fee loan under regulation 21(6) or 21(8)]. [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)]

Mae testun Saesneg paragraff 5(1)(a) o Atodlen 6 yn cynnwys y geiriau "in any case where the household income exceeds £39,793" a'r testun Cymraeg yn nodi "mewn unrhyw achos lle mae incwm yr aelwyd dros £39,780" [in any case where the household income exceeds £39,780]. [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)]

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Ionawr 2009; mae'n bwysig felly fod yr anghysondebau hyn yn cael eu cywiro cyn gynted ag y bo modd.

**Cynghorwyr cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**Ionawr 2009**

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn y pwyntiau adrodd ac mae'n bwriadu dwyn deddfwriaeth ddiwygio gerbron cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn debygol o ddigwydd cyn pen y pedwar mis nesaf a chyn 1 Medi 2009 man hwyraf, sef y dyddiad pan fydd y flwyddyn academaidd y mae a wnelo'r Rheoliadau â hi yn dechrau.